## Pwy ydym ni?

Rydym yn wasanaeth cymunedol i blant a phobl ifanc 0-18 oed yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Rydym wedi ein lleoli yng Nghanolfan i Blant Ysbyty Dewi Sant a Chanolfan i Blant Ysbyty Llandochau.

Yn ein gwasanaeth mae Pediatregwyr, Therapyddion Galwedigaethol, Nyrsys Arbenigol, Seicolegwyr Clinigol, Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Seiciatryddion Plant a Phobl Ifanc, Fferyllwyr, Cysylltwyr Cymunedol a Gweinyddwyr.

# Gwasanaeth **Niwroddatblygiadol**
# **Neurodevelopmental** Service

Yn darparu asesiad diagnostig arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anhwylderau niwroddatblygiadol.

**E-bost: Paediatric.NDTeam.Cav@wales.nhs.uk**

**Ffurflen Gyswllt:**

**https://cavyoungneurodevelopment.wales/contact/**

**Gwefan: cavyoungneurodevelopment.wales/cy/**

## Pwy ydyn ni'n gweld?

Plant a all fod ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (ASD) a/neu Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD).

Mae tua 50% o'r plant rydym yn eu hasesu yn cael diagnosis o ASD neu ADHD, mae gan 50% anghenion eraill y gellid eu deall a'u cefnogi gan wasanaethau eraill.

## Mae niwroddatblygiad yn golygu datblygiad yr ymennydd.

Mae llawer o wahanol ffyrdd y gellir effeithio ar ddatblygiad yr ymennydd. Enghreifftiau o bethau y gall hyn gael effaith arnynt yw dysgu, cof, rhyngweithio ag eraill, cyfeillgarwch, rheoli emosiynau, cyfathrebu cymdeithasol, synhwyraidd, sylw a chanolbwyntio.

## Y Broses Asesu

Mae pob plentyn yn unigryw, felly gall y broses fod yn wahanol ac yn seiliedig ar y wybodaeth a rennir am gryfder ac anawsterau eich plentyn.

## Beth ydyn ni'n ei wneud?

Gweithio gyda chi a'ch plentyn i ddeall eu cryfderau a'u hanawsterau. Asesiadau Diagnostig. Cynnig cyngor a chefnogaeth i deuluoedd.

Darparu gwybodaeth am wasanaethau eraill a allai fod o gymorth. Digwyddiadau Cysylltwyr Cymunedol.

## Y Llwybr Atgyfeirio

1. Anfon atgyfeiriad at y Pwynt Mynediad Sengl (SPOA)
2. Bydd yr atgyfeiriad yn cael ei adolygu a'i frysbennu gan aelod clinigol o'r tîm SPOA i benderfynu ai ni yw'r gwasanaeth iawn i gefnogi anghenion eich plentyn. Os derbynnir atgyfeiriad, cewch eich ychwanegu at y rhestr aros niwroddatblygiadol. Byddwch chi a'r atgyfeiriwr yn cael eich hysbysu drwy lythyr am ganlyniad y broses frysbennu.
3. Bydd gennych fynediad i'r Cysylltwyr Cymunedol a gwasanaethau trydyddol eraill wrth i chi aros.
4. Fe'ch gwahoddir i apwyntiad cyntaf eich plentyn gydag un o'r tîm clinigol niwroddatblygiadol.

CYPF Children, Young People & Family Health Services
PPIT
GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cardiff and Vale University Health Board

Gwasanaeth Niwroddatblygiadol Neurodevelopmental Service CYPF PPIT

## Sut i Baratoi ar Gyfer eich Apwyntiad Cyntaf

Gall fod yn frawychus mynd i'r ysbyty. Bydd paratoi eich plentyn yn ei helpu i wybod beth i'w ddisgwyl a theimlo'n llai pryderus.

Pethau defnyddiol i'w dweud wrthyn nhw:
Bydd y clinigwr eisiau dod i'ch adnabod chi, dysgu am y pethau rydych chi'n dda yn eu gwneud a'r pethau rydych chi'n eu hoffi a'r pethau rydych chi'n cael trafferth â nhw. Efallai y byddant yn gofyn i chi am yr ysgol, cyfeillgarwch ac emosiynau.

Efallai y bydd y clinigwr yn gwrando ar eich calon ac yn gwirio eich pwysau a'ch taldra a gofyn am eich iechyd.

## Sut mae penderfyniad yn cael ei wneud.

Cesglir gwybodaeth o holiaduron, cyfweliadau â rhieni, arsylwadau o'ch plentyn ac asesiadau penodol.

Bydd ein tîm o glinigwyr yn trafod y wybodaeth sydd wedi'i chasglu fel rhan o'r broses asesu i geisio deall beth allai fod yn dylanwadu ar anawsterau eich plentyn.

## Eich Apwyntiad Cyntaf

GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro / Cardiff and Vale University Health Board

Ar gyfer eich apwyntiad cyntaf byddwch chi a'ch plentyn yn cael eich gweld gyda'ch gilydd wyneb yn wyneb neu drwy fideo – os nad ydych am siarad am bethau anodd o flaen eich plentyn, dewch â rhywun gyda chi i wylio'ch plentyn am ran o'r apwyntiad.
Neu, efallai y byddwn yn gofyn i chi fynychu'r apwyntiad ar eich pen eich hun i gasglu rhagor o wybodaeth am gryfderau ac anawsterau eich plentyn a'r hyn sydd wedi dylanwadu ar ddatblygiad eich plentyn.

## Beth yw Diagnosis?

Proses o adnabod cyflwr o'i gyflwyniad yw diagnosis. Nid oes prawf syml sy'n ein helpu i nodi beth allai fod yn achosi anawsterau plentyn neu berson ifanc. Mae ein hasesiadau yn seiliedig ar farn glinigol ofalus. Ni fydd diagnosis yn newid rhywun nac yn newid eu hymddygiad, ond gall eich helpu i'w deall yn well a'u cefnogi yn y ffordd iawn.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Efallai y bydd eich plentyn neu berson ifanc yn cael diagnosis o ASD neu ADHD, ond mae'n bosib na fyddant yn cael diagnosis o hyn, felly ein gobaith yw eich helpu i ddeall eu hanghenion.
Unwaith y bydd yr asesiad wedi'i gwblhau, efallai na fydd rôl bellach i ni, fodd bynnag, byddwn yn eich cyfeirio at y tîm neu'r gwasanaeth iawn i gefnogi eich plentyn neu'ch person ifanc lle bo hynny'n briodol.
Ar ôl cael asesiad, os nad oes unrhyw anghenion meddygol pellach, efallai y bydd plant a phobl ifanc yn cael eu rhyddhau o'r gwasanaeth.

## Pwy arall all helpu?

Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd – 03000 133133

Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf / Families First Advice Line – Bro Morgannwg 0800 0327322

Cysylltwyr Cymunedol